
# Stori'r Geni



## Stori'r Gwŷr Doeth

# Stori'r Geni

## Stori'r Gwŷr Doeth



**Gwybodaeth Gefndirol**

- Roedd y gwŷr doeth yn deall y sêr. Heddiw bydden ni'n eu galw'n astrolegyddion.
- Does dim sôn am y nifer o wŷr doeth yn y Beibl, ond am fod tri anrheg wedi ei roi i Iesu, mae pobl yn tybio mai tri gŵr doeth oedd yna.
- Roedd y gwŷr doeth yn gwybod fod arwyddocâd i'r seren. Roedd yn golygu bod brenin newydd yr Iddewon (y bobl ddewisodd Duw) wedi'i eni. Roedd yr Iddewon wedi bod yn disgwyl am gannoedd o flynyddoedd am yr enedigaeth oedd wedi ei rhagweld amser maith yn ôl gan y proffwydi.
- Teithiodd y gwŷr doeth gannoedd o filltiroedd i Jerwsalem ble roedden nhw'n disgwyl gweld y brenin newydd-anedig. Pan gyrhaeddon nhw, aethon nhw i holi y Brenin Herod amdano.
- Ar ôl siarad gyda'r brenin Herod dyma nhw'n gadael y palas a gweld y seren eto. Fe wnaethon nhw ei dilyn i Bethlehem a dod o hyd i Iesu yno.
- Cyflwynodd y gwŷr doeth dri anrheg drud a gwerthfawr i Iesu, ond doedden nhw ddim yn anrhegion arferol i fabi newydd. Roedd aur yn cael ei roi i frenhinoedd. Roedd thus yn cael ei losgi i addoli Duw. Roedd arogl hyfryd iddo wrth ei losgi. Perlysieuyn gydag arogl cryf iddo oedd myrr, a byddai'n cael ei ddefnyddio wrth gladdu pobl.




**Yn y Beibl**

- Gelli ddarllen am y gwŷr doeth yn y Beibl, yn llyfr Mathew, pennod 2, o adnod 1 i adnod 12.



**Teimladau ac Emosiynau**

- Byddai'r gwŷr doeth yn gyffrous ac yn rhyfeddu wrth weld seren newydd a meddwl beth roedd yn ei gynrychioli.
- Bydden nhw wedi blino'n lân ar ôl teithio mor bell.
- Bydden nhw wedi bod ar ben eu digon pan ddaethon nhw o hyd i'r brenin newydd a chyflwyno'u hanrhegion iddo.
- Byddai'r gwŷr doeth wedi bod ychydig yn bryderus am nad aethon nhw yn ôl at y Brenin Herod ar ôl i Dduw eu rhybuddio mewn breuddwyd.



**Gweithgaredd gydag oedolyn**

- Os oes modd mynd i gae chwarae neu neuadd, anogwch y plant i chwarae gêm "dilyn yr arweinydd" gan ddychmygu mai nhw yw'r gwŷr doeth yn mynd ar daith. Gallai'r plentyn cyntaf ddal seren ac efallai y gellid cael rhwystrau iddynt fynd o'u cwmpas.
- Neu, os oes diffyg lle, gellid chwarae gêm tebyg i "Simon says" gan wneud symudiadu yn eu hunfan. Er enghraifft, gellid dweud "Mae'r seren yn dweud 'Dringwch fryn'". Siaradwch am deimladau'r gwŷr doeth ar eu taith hir.



**Myfyrio**

- Byddai taith y gwŷr doeth wedi bod yn un hir ac wedi cymryd dyddiau lawer, ond dyma nhw'n bwrw yn eu blaenau am eu bod yn credu yn arwyddocâd y seren. Mae rhai pethau'n cymryd amser hir i'w cyflawni, ond gyda dyfalbarhad ac amynedd gellir cyrraedd y nod.

C Oes yna rywbeth yr hoffet ti ei gyflawni sydd angen amynedd a dyfalbarhad? (Efallai ei fod yn rhywbeth fel dysgu canu offeryn neu fod yn dda mewn chwaraeon.)